

Cynllunio, mewnfudo a datblygiadau tai yn Sir Gâr

Casglu Tystiolaeth

Nod y weithred hon yw casglu tystiolaeth am effaith datblygiadau preswyl ar ein cymunedau yn Sir Gâr. Mi fyddai rhywun yn meddwl bod gan y Cyngor Sir systemau a mecanwaith i gasglu gwybodaeth fanwl am sut mae codi stadau tai'n effeithio ar natur ein cymunedau a'r Gymraeg yn benodol, ond y gwir amdani yw bod yna wagle.

Mewn cyfarfod gyda aelodau'r Gymdeithas yn ddiweddar, bu'n rhaid i bennaeth adran cynllunio'r Cyngor Sir, Llinos Quelch, gydnabod nad yw'r awdurdod yn mynd ati'n systematig i gasglu gwybodaeth a mesur yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r adeiladwyr orffen eu gwaith. O'r herwydd, dywedodd Llinos Quelch y byddai'n croesawu tystiolaeth a mewnbwn mudiadau fel Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Gall dod i adnabod a siarad yn rheolaidd â chynghorwyr lleol, boed hynny ar lefel cynghorwyr cymunedol neu gynghorwyr sir, fod yn ffordd effeithiol o gasglu gwybodaeth. Fel rheol, y nhw sy'n adnabod eu cymunedau cystal â neb, ond wrth reswm, mae yna ffynhonnellau da eraill ar gael – athrawon, staff meddygfeydd, yr heddlu, ac yn y blaen.


Y dasg yw defnyddio cynghorwyr lleol a phobl eraill yn yr ardal, os oes modd, i gasglu gwybodaeth am ddatblygiadau tai yn Sir Gâr. Cysylltwch gyda Bethan am ragor o wybodaeth am eich cynghorydd lleol.

Danfongwch gopi papur neu wedi ei sganio nôl aton ni at un o'r cyfeiriadau isod erbyn canol Rhagfyr - neu dewch â gwybodaeth gyda chi i gyfarfod Tynged yr Iaith Sir Gâr ym mis Ionawr (dyddiad i'w gadarnhau).

Holiadur Tai – Cymdeithas yr Iaith Sir Gâr

Datblygiadau yn y ward yn y 5 mlynedd diwethaf

Cyfeiriad y datblygiad + nifer y tai sydd wedi eu hadeiladu



Pa fath o dai ydyn nhw?

- Tai sengl
- Tai dwbl
- Tai teras
- Byngalos

Cymysg

Oedden nhw:

- Ar werth
- Ar rent
- Cymysg

Tai ar werth - Marchnata a gwerthu (argraffiadau cyffredinol oes nad oes tystiolaeth gadarn)

Pa mor gyflym y gwerthwyd y tai? Oedden nhw ar y farchnad am yn hir, neu aethon nhw'n weddol glou? Oedd yn rhaid i'r datblygwyr ostwng y prisiau?

Pris y tai (yn fras)

- Cymharol ddrud ____%.
- Fforddiadwy i bobl ar incwm cyfartaledd ____%.

Tai Fforddiadwy?

A oedd unrhyw dai "fforddiadwy" yno? [Tai fforddiadwy yw tai sy'n cael eu darparu ar gyfer eu gwerthu neu'u rhentu am bris sy'n is na'r prisiau ar y farchnad agored a lle mae mecanweithiau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod nhw'n hygyrch i'r bobl hynny sy'n methu â fforddio tai'r farchnad]

- Oedd
- Nacoedd

Tai ar rent – pwy sy biau nhw?

- Y Cyngor Sir
- Cymdeithas tai

Iaith

Amcangyfrif o'r ganran sy'n siarad Cymraeg ____%.

Pwy sy'n byw yno? (*Ticio + os oes modd, y canrannau yn fras a ble*)

- Cymry lleol? ____%.
- Wedi symud o rywle arall yng Nghymru? ____%. Ble? _____
- Lloegr? ____%. Ble? _____
- Cymysgedd o bobl

Ai gwerthu eu tŷ blaenorol wnaeth y preswylwyr presenol?

- Ie
- Na

Os ie, pwy brynodd y tai? (*Ticio + os oes modd, y canrannau yn fras a ble*)

- Cymry lleol? _____%.
- Wedi symud o rywle arall yng Nghymru? _____%. Ble? _____
- Lloegr? _____%. Ble? _____
- Cymysgedd o bobl

Oedran (*Canrannau bras os yn bosib*)

- Teuloedd? _____%.
- Pobl mewn oed? _____%.
- Pobl o Loegr sy wedi ymddeol? _____%.

Gwaith

Beth yw'r ganran sy'n gweithio? _____%.

Addysg

Os oes plant, ble maen nhw'n mynd i'r ysgol?

Oes problemau cymdeithasol? (troseddu, cyffuriau, diweithdra?)

Cyffredinol

Beth yn eich tyb chi oedd effaith y datblygiad dan sylw ar y gymuned ehangach a Chymreictod y gymuned honno?